Jane Hutt AC/AM
Y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau
Minister for Children, Education, Lifelong Learning and Skills

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

AT: - Cadeiryddion Cyrff Llywodraethu -
ysgolion a gynhelir yng Nghymru.

1 Rhagfyr 2009

Annwyl Gadeirydd

Rheoliadau Staffio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) (Diwygio) a'r Ddeddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu.

Yn dilyn fy nghyhoeddiad ym mis Ebrill elen am gynigion Llywodraeth Cynulliad Cymru i ddiwygio'r rheoliadau staffio yng Nghymru, hoffwn roi gwybod i chi i reoliadau diwygiedig ddod i rym ar 2 Tachwedd 2009. I weld y rhain ewch i:
http://www.opsi.gov.uk/legislation/wales/wsi2009/wsi_20092708_we_1

Diwygiwyd y rheoliadau er mwyn eu diweddaru a gwneud iddynt adlewyrchu'r hyn sy'n newydd o ran telerau cyflogaeth athrawon ers i'r rheoliadau gael eu gwneud yn gyntaf.

Dyma ddiben y rheoliadau:

- cryfhau agweddau ar y Cytundeb Cenedlaethol ar *Godi safonau a Mynd i'r Afael â Llwyth Gwaith* sy'n ymwneud â chydbwysedd bywyd/gwaith penaethiaid

- gosod dyletswydd newydd ar gyrff llywodraethu i reoli'u staff (hy Penaethiaid) yn unol ag amodau'u cyflogaeth.

Yn ogystal â'r rheoliadau hyn, mae Deddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009 wedi rhoi'r p• er i Lywodraeth Cynulliad Cymru o fis Ionawr 2010 ymlaen sicrhau bod ysgolion a'u cyrff llywodraethu'n cydymffurfio â darpariaethau'r Ddogfen Tâl ac Amodau Athrawon Ysgol a hefyd â'r trefniadau ar gyfer rheoli perfformiad a sefydlu athrawon. Fel y gwyddoch,

mae dyletswyddau ysgolion, awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu o ran cydymffurfio wedi'u hegluro'n llawn yn y Ddogfen Tâl ac Amodau Athrawon Ysgol.

Nid yw'r p• er i bennu tâl ac amodau athrawon wedi'i ddatganoli i Weinidogion Cymru. Fodd bynnag, mae'r Ddeddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu yn creu'r pwerau i Weinidogion Cymru roi rhybuddion i awdurdodau lleol yng Nghymru lle ceir tystiolaeth nad ydynt wedi cydymffurfio.

Os nad ydynt wedi cydymffurfio, credaf ei bod yn fwy debygol bod hyn yn deillio o gamddealltwriaeth yn hytrach na phenderfyniad bwriadol a gall fod angen cymorth ychwanegol ar rai ysgolion er mwyn iddynt gydymffurfio'n llawn. Gwell yw datrys problemau ar lefel leol ac yn bendant dim ond mewn achosion lle y byddai'n rhesymol ac yn gymesur gwneud hynny y byddwn am ddefnyddio'r pwerau hyn ar ôl i bob ymgais arall fethu. Mae'n bwysig sicrhau bod trefniadau cadarn a chyson yn eu lle ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol ledled Cymru.

Mae gan gyrff llywodraethu rôl hynod o bwysig wrth sicrhau bod pobl yn cydymffurfio ac wrth ofalu bod staff yn yr ysgol yn manteisio'n llawn ar yr hyn y mae ganddynt hawl gyfreithiol iddo. Mae angen i gyrff llywodraethu fod yn glir ynghylch eu cyfrifoldebau a'u cyfrifoldebau yn hyn o beth gan gynnwys y rôl o nodi a datrys problemau sy'n gysylltiedig â diffyg cydymffurfiad yn eu hysgolion. Hoffwn felly achub ar y cyfle hwn i'ch atgoffa am ddyletswyddau statudol newydd cyrff llywodraethu, fel y'u nodwyd yn Rheoliadau Staffio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) (Diwygio) 2009, ynghylch dyletswyddau a hawlogaethau'r pennaeth: -

(1) Rhaid i'r cyrff llywodraeth sicrhau bod y pennaeth yn yr ysgol

(a) yn cydymffurfio â'r dyletswyddau a osodwyd ar y pennaeth

(b) yn elwa ar unrhyw hawlogaeth a roddir i'r pennaeth

drwy unrhyw orchymyn, o dan adran 122 o Ddeddf 2002 (cyflog ac amodau athrawon).

(2) Wrth iddo gyflawni ei ddyletswydd o dan baragraff (1)(a), rhaid i'r corff llywodraethu roi sylw i'r dymunoldeb bod y pennaeth yn gallu cael cydbwysedd boddhaol rhwng yr amser y mae ei angen i gyflawni dyletswyddau proffesiynol a'r amser y mae ei angen arno i ddilyn ei ddiddordebau personol y tu allan i'r gwaith.

Yn ymarferol, golyga hyn fod rhaid i gyrff llywodraethu sicrhau bod y pennaeth yn cydymffurfio â darpariaethau'r Ddogfen Tâl ac Amodau Athrawon Ysgol ac yn elwa arnynt, a bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i sicrhau bod cydbwysedd boddhaol rhwng bywyd a gwaith yn achos y pennaeth yn un boddhaol.

Byddai o gymorth pe baech yn tynnu sylw'ch corff llywodraethu at hyn ac yn adolygu'r trefniadau sydd gennych yn eu lle er mwyn sicrhau bod y

dyletswyddau statudol hyn yn cael eu bodloni. I gael rhagor o gyngor ac arweiniad ynghylch y dyletswyddau y cyfeirir atynt uchod ewch i'r gwasanaethau cefnogi llywodraethwyr a ddarperir gan eich awdurdod lleol.

CC: - Jane Morris, Cyfarwyddwr, Llywodraethwyr Cymru
Swyddogion cefnogi llywodraethwyr yr Awdurdodau Lleol
Cyfarwyddwr Addysg yr Awdurdodau Lleol
Cyfarwyddwyr Addysg Esgobaethol